Rhif: WG53430

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar rianta corfforaethol: cod ymarfer rhan 6 ar blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya

Chwefror 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx Rhif Llyfr Safonol Rhyngwladol Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru rhwng 4 Awst a 27 Hydref 2025 a oedd yn ceisio barn ar y newidiadau arfaethedig i god ymarfer rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn cynnwys cynigion ynghylch pennod newydd ar rianta corfforaethol yn y Cod.

## Y camau sydd eu hangen

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwella Canlyniadau i Blant
Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: rhiantacorfforaethol@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori wedi'u cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori rhiantacorfforaethol@llyw.cymru

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Adran 1** | | |
| 1.1 | Trosolwg | 4 |
| 1.2 | Cyflwyniad | 4 |
| 1.3 | Cefndir | 4 |
| 1.4 | Newidiadau arfaethedig i'r cod a chwestiynau'r ymgynghoriad | 5 |
| 1.5 | Yr ymgynghoriad hwn | 5 |
| 1.6 | Ymatebion i'r ymgynghoriad | 5 |
| **Adran 2** | Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law ac ymateb Llywodraeth Cymru | 6 |
| 2.1 | Adran 1: rhaglith a lleoliadau, penodau 1 a 2, cwestiwn 1 | 6 |
| 2.2 | Adran 2: rhianta corfforaethol, "rhianta cymunedol", cwestiwn 2 | 7 |
| 2.3 | Adran 2: paneli a grwpiau rhianta corfforaethol, cwestiwn 3 | 8 |
| 2.4 | Adran 2: barn ar y cynigion yn yr adran hon o'r bennod, cwestiwn 4 | 9 |
| 2.5 | Adran 2: platfform cenedlaethol neu leol, cwestiwn 5 | 10 |
| 2.6 | Adran 2: mesur cynnydd, cwestiwn 6 | 11 |
| 2.7 | Adran 3: pennod 4, ychwanegiadau a diwygiadau i adrannau o'r cod, cwestiwn 7 | 12 |
| 2.8 | Adran 4: cwestiynau ychwanegol – materion cysylltiedig na roddwyd sylw iddynt, cwestiwn 8 | 13 |
| 2.9 | Adran 4: Canlyniadau anfwriadol, cwestiwn 9 | 14 |
| 2.10 | Adran 4: Barn am yr effaith ar grwpiau o bobl, cwestiwn 10 | 15 |
| 2.11 | Adran 4: Barn ar y newidiadau arfaethedig i'r Gymraeg, cwestiwn 11 | 16 |
| 2.12 | Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 18 |
| | Ymateb Llywodraeth Cymru | 18 |

# Adran 1

## 1.1 Trosolwg

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y newidiadau arfaethedig i **god ymarfer rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** gan gynnwys:

- cyflwyno pennod benodol ar rianta corfforaethol sy'n rhoi arweiniad i awdurdodau lleol i'w cefnogi yn eu rôl fel rhieni corfforaethol
- cryfhau pwysigrwydd llais y plentyn, yn benodol o fewn penodau'r cod ar gynllunio gofal a chymorth a lleoliadau
- cryfhau'r canllawiau ar symud lleoliadau a chyfarfodydd adolygu
- diweddaru'r derminoleg a'r ddeddfwriaeth ers i'r cod gael ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Ebrill 2018

Bydd adolygiad llawn o'r cod ymarfer yn cael ei gynnal yn gynnar yn nhymor y Senedd nesaf (ar ôl mis Mai 2026).

## 1.2 Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gam cyntaf adolygiad o'r cod.

Prif ddiben yr adolygiad hwn yw cynnwys adran newydd benodol ar rianta corfforaethol a chryfhau pwysigrwydd llais plant a phobl ifanc. Bydd hefyd yn adolygu'r derminoleg drwy'r cod a fydd yn golygu ei diweddaru ers yr adolygiad diwethaf yn 2018.

Bydd y cam cyntaf hefyd yn cynnwys diweddariadau mewn perthynas â maethu, mabwysiadu a gofal gan berthynas. Mae ymgynghoriad ar wahân wedi'i gynnal ar yr agweddau hyn, gan eu bod yn gysylltiedig â rheoliadau. Bydd y fersiwn derfynol o'r cod yn cyfuno'r newidiadau o'r ddau ymgynghoriad mewn un cod ymarfer wedi'i ddiweddaru a fydd yn cael ei osod gerbron y Senedd.

Bydd ail gam yr adolygiad o'r cod yn cael ei gynnal yn nhymor y Senedd nesaf a bydd yn cynnwys diweddariadau ar wahanol rannau o'r cod, fel y rhai sy'n gadael gofal.

## 1.3 Cefndir

Dyroddir y cod o dan **adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** ("y ddeddf "). Cafodd y cod ei ddiweddaru a'i ailddyroddi ddiwethaf ym mis Ebrill 2018.

Mae'r cod yn cynnwys canllawiau ar arfer cyfrifoldebau awdurdod lleol o dan y Ddeddf am y canlynol:

- cynlluniau gofal a chymorth mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan gynnwys addysg ac iechyd

- y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal, gan gynnwys lleoliadau plant sy'n derbyn gofal
- cyswllt ac ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal a phlant a arferai dderbyn gofal, gan gynnwys ymwelwyr annibynnol
- trefniadau ar gyfer gadael gofal, cynghorwyr personol, cynlluniau ac asesiadau llwybrau, llety addas a chymorth ar gyfer addysg uwch
- llety diogel
- plant sy'n cael eu lletya mewn mathau eraill o sefydliadau (gan awdurdodau iechyd ac addysg, neu mewn cartrefi gofal neu ysbytai annibynnol).

### 1.4 Newidiadau arfaethedig i'r Cod a chwestiynau'r ymgynghoriad

Roedd tudalen yr ymgynghoriad yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i'r cod a chwestiynau'r ymgynghoriad. Mae dolen i'r dudalen we isod – [Ymgynghoriad ar rianta corfforaethol: cod ymarfer rhan 6 ar blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya [HTML] | LLYW.CYMRU]

### 1.5 Yr ymgynghoriad hwn

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 4 Awst a 27 Hydref 2025. Roeddem wedi gwahodd ymatebwyr i gyflwyno eu barn drwy'r ffurflen ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post. Anfonwyd hysbysiad ynghylch yr ymgynghoriad drwy e-bost at amryw o randdeiliaid sydd â diddordeb yn y cynigion.

Tynnwyd sylw at yr ymgynghoriad hefyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad.

### 1.6 Ymatebion i'r ymgynghoriad

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 28 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r sefydliadau a ymatebodd (ac nad oeddent wedi nodi eu bod am aros yn ddienw) wedi'u rhestru isod:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Caerdydd
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant ar ran ei Grŵp Comisiynwyr Ifanc
- Plant yng Nghymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cwm Taf Morgannwg
- Estyn
- Cyngor Sir y Fflint

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a Maethu Cymru
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru
- Bwrdd Rhianta Corfforaethol Cyngor Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Rithwir Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Abertawe
- TGP Cymru
- Y Rhwydwaith Maethu
- Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Sir Bro Morgannwg
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Adran 2 – Crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law

### 2.1 Pennod 2 – Lleoliadau

**Cwestiwn 1:** Ydych chi’n cytuno â’r ychwanegiadau a’r diwygiadau arfaethedig i’r adrannau hyn o’r cod? Os nad ydych, a allech chi esbonio pa welliannau eraill sydd eu hangen?

**Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad**

Cafwyd 28 ymateb i’r cwestiwn hwn. Dywedodd 18 ymatebydd ‘ydym’, dywedodd dau ymatebydd ‘nac ydym’ ac roedd wyth ymatebydd arall.

<u>Thema/Themâu allweddol</u>

- Cefnogaeth gref i gryfhau llais y plentyn.
- Angen eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau.

<u>Sylwadau</u>

- Pryderon ynghylch adnoddau a gallu.
- Pwysigrwydd cyfathrebu ac eiriolaeth ddwyieithog.
- Anodd ymateb yn llawn heb weld y newidiadau yn y cod ymarfer drafft llawn.

Argymhellion

- Rhoi canllawiau a diffiniadau clir.
- Sicrhau adnoddau a hyfforddiant digonol.
- Ymwreiddio llais y plentyn ym mhob proses.
- Cynnal hygyrchedd a chymorth eiriolaeth dwyieithog.

**2.2 Beth yw rhianta corfforaethol?**

**Cwestiwn 2:** Beth yw eich barn chi am y term “rhianta cymunedol”?

**Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad**

Cafwyd 28 ymateb i’r cwestiwn hwn. Yn yr ymatebion roedd cefnogaeth glir i’r term gan 10 o ymatebwyr. Cafwyd barn gymysg gan 8 o ymatebwyr a chafwyd pryderon a gwrthwynebiad gan 10 o ymatebwyr.

Thema/Themâu allweddol

Roedd y brif thema gadarnhaol ynghylch “Fframio Cadarnhaol”, mewn perthynas â’r term “rhianta cymunedol”. Roedd rhai ymatebwyr yn credu ei fod:

- yn gynhwysol ac yn gyson â’r cysyniad bod angen cymuned i fagu plentyn.
- yn annog y gymuned ehangach i gymryd rhan, y tu hwnt i gyrff statudol.
- yn cael ei ffafrio gan rai byrddau cynghori ieuenctid am ei fod yn swnio’n llai biwrocrataidd.

Sylwadau

- Dryswch posibl ynghylch eglurder ac atebolrwydd.
- Perygl y bydd y gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau statudol ac anstatudol yn aneglur.
- Ofn y bydd atebolrwydd cyfreithiol rhieni corfforaethol yn gwanhau a’r posibilrwydd o ddefnydd symbolaidd heb ganllawiau clir.
- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen am ddiffiniadau clir a gofynnodd eraill am ddiffiniadau a ffiniau pendant. Roedd y dewisiadau eraill yn lle “rhianta cymunedol” a awgrymwyd yn cynnwys rhianta cydweithredol, rhwydwaith rhianta corfforaethol a chymorth cymunedol.

Roedd yr ystyriaethau a’r sylwadau ymarferol eraill a godwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys:

- Cwestiynau am adnoddau, rolau, a’r disgwyliadau i bartneriaid cymunedol.
- Galwadau am ymgynghori ehangach â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal cyn mabwysiadu terminoleg.
- Iaith a chanfyddiad
- Mae ‘rhianta corfforaethol’ yn cael ei ystyried yn ffurfiol ac yn fiwrocrataidd; mae canfyddiad bod ‘rhianta cymunedol’ yn fwy perthynol.
- Dryswch ar draws asiantaethau os oes nifer o dermau yn cael eu defnyddio.

Argymhellion

- Diffinio rolau a chyfrifoldebau yn glir i osgoi dryswch.
- Cadw ‘rhianta corfforaethol’ ar gyfer dyletswyddau statudol, defnyddio ‘rhianta cymunedol’ ar gyfer partneriaid anstatudol gyda chanllawiau clir.
- Ymgynghori â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ynghylch terminoleg a fframio.
- Datblygu mecanweithiau atebolrwydd ar gyfer partneriaid cymunedol (e.e. fframweithiau adrodd).
- Darparu hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi’r broses weithredu,

### 2.3 Cyflawni rhianta corfforaethol, gan gynnwys llais y plentyn

**Cwestiwn 3:** Beth yw eich barn chi am y cynigion yn yr adran hon o’r bennod ar baneli neu grwpiau rhianta corfforaethol?

### Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

Cafwyd 28 o ymatebion i Gwestiwn 3 ar baneli/grwpiau rhianta corfforaethol.

Thema/Themâu allweddol

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth gref i baneli rhianta corfforaethol, gyda phwyslais ar arweiniad, cynhwysiant, a chynnwys plant a phobl ifanc mewn modd ystyrlon.

Sylwadau

Roedd y risgiau a amlygwyd yn yr ymatebion yn cynnwys:

- Gor-ddibyniaeth ar baneli.
- Diffyg gofyniad gorfodol.
- Diffiniad cul o rianta corfforaethol.

Argymhellion

- Datblygu canllawiau a phecyn cymorth cenedlaethol.
- Sicrhau bod paneli yn gynhwysol ac yn cael eu harwain gan blant.
- Gwneud cylchoedd adrodd ac adborth tryloyw yn orfodol.
- Darparu dulliau ymgysylltu amgen.
- Egluro’r cwmpas i gynnwys yr holl blant â phrofiad o fod mewn gofal

## 2.4 Rôl rhiant corfforaethol o ran darparu gwybodaeth wrth adael gofal

**Cwestiwn 4:** Beth yw eich barn chi am y cynigion ar gyfer yr adran hon o'r bennod? Oes unrhyw beth ar goll?

### Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd 28 o ymatebion a nodwyd "Dim ymateb" neu "Amherthnasol" ar rai ohonynt.

Thema/Themâu allweddol

Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion i Gwestiwn 4 yn dangos cefnogaeth gref yn gyffredinol i'r cynigion sydd â'r nod o wella hygyrchedd a chysondeb gwybodaeth i'r rheiny sy'n gadael gofal.

Sylwadau

- Roedd yr ymatebion yn pwysleisio perthnasedd lleol.
- Osgoi dyblygu adnoddau presennol.
- Posibilrwydd o allgáu digidol i'r rheiny heb ffonau clyfar neu'r rhyngrwyd.
- Pwysleisiwyd hefyd fod angen rhoi ystyriaeth i blant niwrowahanol, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a rhwystr iaith, a pherygl anfantais ddwbl i ddysgwyr ADY cyfrwng Cymraeg.

Argymhellion

- Datblygu canllawiau cenedlaethol.
- Datblygu adnodd ar-lein cenedlaethol (tudalen we/ap) ag addasiadau lleol.
- Sicrhau hygyrchedd aml-ffurf (hawdd ei ddarllen, sain, fideo, Cymraeg).
- Cynnal a chryfhau rôl cynghorwyr personol ochr yn ochr ag offer digidol.
- Sicrhau bod cynnwys pobl ifanc wrth ddylunio ac adolygu adnoddau yn orfodol.
- Cyflwyno mesurau atebolrwydd clir ar gyfer dyletswyddau rhianta corfforaethol.
- Ymestyn cymorth statudol i'r rheiny sy'n gadael gofal i 25 oed.
- Darparu canllawiau ar gyfer cydweithio amlasiantaethol a diffinio meincnodau ar gyfer arfer da.
- Galwadau am arweiniad ar sut mae gwasanaethau eraill (iechyd, tai, yr heddlu, yr Adran Gwaith a Phensiynau) yn gweithredu fel rhieni corfforaethol.
- Awgrym i roi "er budd pennaf y plentyn" yn lle "rhesymol ymarferol".

## 2.5 Rôl rhiant corfforaethol o ran darparu gwybodaeth wrth adael gofal

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n meddwl y byddai'r wybodaeth hon wedi'i lleoli'n well ar blatfform cenedlaethol neu leol? Esboniwch.

### Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi dull hybrid lle mae platfformau cenedlaethol a lleol wedi'u cysylltu â'i gilydd. Ychydig iawn sy'n ffafrio platfform lleol yn unig, gan nodi'r gwahaniaethau rhwng awdurdodau a pherygl disgwyliadau afrealistig.

<u>Thema/Themâu allweddol</u>

*Dull hybrid*
Ystyrir mai'r dull hybrid sydd orau o ran eglurder, hygyrchedd a pherthnasedd a bod angen cyfeirio clir rhwng y ddau blatfform.

*Platfform cenedlaethol*
Mae'r prif resymau a roddodd yr ymatebwyr dros ffafrio platfform cenedlaethol wedi'u nodi isod:

- Cysondeb ledled Cymru, safonau ac atebolrwydd cyffredin.
- Rhannu costau cyfieithu a hygyrchedd.
- Meincnodi a rhannu arfer da.
- Cymorth i bobl sy'n gadael gofal ac sy'n symud rhwng awdurdodau.
- Monitro ac atebolrwydd canolog.

*Platfform lleol*

Mae'r prif resymau a roddodd yr ymatebwyr dros ffafrio platfform lleol wedi'u hamlygu isod.

- Wedi'i deilwra yn ôl anghenion a gwasanaethau lleol.
- Ymgysylltu uniongyrchol â phartneriaid lleol.
- Cymorth ymarferol ar unwaith yn y gymuned.

<u>Sylwadau</u>

Pryderon ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am ddiweddaru'r wybodaeth a sicrhau bod eglurder ynghylch cadw'r wybodaeth yn gyfredol – yn genedlaethol ac yn lleol.

Argymhellion

- Rhaid i'r platfform fod yn hygyrch, yn addas i blant, mewn Cymraeg/Saesneg clir, mewn nifer o ieithoedd, a rhaid iddo fod ar gael all-lein.
- I helpu i sicrhau ei fod yn gadarn, awgrymwyd y dylai fod sefydliad cynnal annibynnol o ran ymddiriedaeth a goruchwyliaeth.
- Rhaid i bobl ifanc fod yn rhan o'r gwaith dylunio a rhaid i'r cynnwys gael ei lunio ar y cyd â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.
- Tudalen lanio genedlaethol a dolenni i awdurdodau lleol.
- Datrysiadau ar ap (a diweddariadau awtomatig os byddant yn symud ardal).
- Integreiddio gyda phlatfformau presennol (e.e. ap gweithdrefnau diogelu).
- Casgliad cenedlaethol o arferion da ar gyfer meincnodi.

### 2.6 Adrodd ar rianta corfforaethol

**Cwestiwn 6:** Yn eich barn chi, beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o fesur cynnydd mewn perthynas â rhianta corfforaethol?

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

Cafwyd cymysgedd o awgrymiadau ynghylch sut y gellir mesur cynnydd, gan gynnwys mesurau meintiol ac ansoddol, a oedd yn golygu nad oedd un dewis clir i symud ymlaen ag ef. Hefyd, roedd rhai yn teimlo y dylai'r rhain gael eu datblygu'n lleol ac roedd rhai yn teimlo y dylent fod yn genedlaethol.

Thema/Themâu allweddol

Roedd yr ymatebion yn darparu amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch y ffordd orau o fesur cynnydd.

Pryderon/sylwadau

- Angen eglurder ynghylch mesurau gorfodol a mesurau a awgrymir.
- Pryderon ynghylch dyblygu fframweithiau presennol.
- Angen arweiniad ynghylch arfer sy'n ystyriol o drawma a diogelwch seicolegol.

Argymhellion.

- Datblygu fframwaith perfformiad cenedlaethol sy'n cyfuno:
  - Dangosyddion perfformiad allweddol meintiol (sefydlogrwydd lleoliadau, addysg, iechyd).
  - Adborth ansoddol (arolygon, paneli, astudiaethau achos).
- Cyflwyno cylchoedd adrodd gorfodol (diweddariadau blynyddol a chwe-misol).
- Creu dangosfwrdd data cenedlaethol ar gyfer meincnodi.
- Sefydlu cymuned ymarfer a chasgliad o arferion da.
- Sicrhau bod cyfranogiad gan blant a phobl ifanc wedi'i ymwreiddio yn yr holl adroddiadau.
- Alinio mesurau â setiau data iechyd ac addysg er cysondeb.

- Ystyried mecanweithiau tryloywder cyhoeddus (adroddiadau cyhoeddedig, marciau ansawdd).

### 2.7 Adran 3: pennod 4

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno â'r ychwanegiadau a'r diwygiadau arfaethedig i'r adrannau hyn o'r cod?

#### Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd y mwyafrif yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig. Nid oedd y rhai a atebodd wedi nodi pryderon am y geiriad nac eglurder y nodau. Roedd pwyslais ar wrando ar ddymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc a sicrhau eu bod yn dylanwadu ar benderfyniadau.

Thema/Themâu allweddol

- Cefnogaeth gref i gyfranogiad plant fod yn brif nod yr adolygiadau.
- Cytundeb eang i gryfhau cyfrifoldebau'r Swyddog Adolygu Annibynnol:
    - Blaenoriaethu llais y plentyn.
    - Rhoi esboniadau clir am newidiadau.
    - Meithrin perthynas â phlant.

Sylwadau

- Dylai adolygu cynllun a chanlyniadau'r plentyn barhau i fod yn ganolog, ochr yn ochr â chyfranogiad.
- Pryderon ynghylch ehangu cwmpas; cwestiynau ynghylch a ddylai Swyddogion Adolygu Annibynnol fonitro goruchwyliaeth gan reolwyr.
- Cydnabod bod gan blant sy'n derbyn gofal nodweddion gwarchodedig.
- Perygl y bydd pwysau ychwanegol ar dimau o ganlyniad i ddisgwyliadau uwch.

Argymhellion

- Angen canllawiau cenedlaethol clir ac adnoddau i gefnogi'r broses weithredu.
- Awgrymiadau ynghylch gwasanaethau eiriolaeth a phobl ifanc yn cadeirio eu hadolygiadau eu hunain.
- Cefnogaeth i ddiweddaru'r derminoleg o "anghenion addysgol arbennig" i "anghenion dysgu ychwanegol".
- Dylai eiriolaeth gael ei chynnig a'i chofnodi'n weithredol.
- Ystyried cyflogi Swyddogion Adolygu Annibynnol yn annibynnol i sicrhau mwy o ddidueddrwydd.
- Cryfhau'r iaith i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ystyrlon i farn y plentyn.
- Eglurder ynghylch pwrpas yr adolygiad. Mae rhai ymatebwyr yn poeni y gallai cyfranogiad daflu'r pwrpas cyfreithiol i'r cysgodion, sef adolygu'r cynllun gofal a'r canlyniadau.
- I leihau'r baich gweithredu, mae angen prosesau ac adnoddau syml.

- Defnyddio “**un** o’r prif nodau” yn hytrach na “prif nod” i gydbwyso cyfranogiad â’r adolygiad o ganlyniadau.
- Darparu canllawiau cenedlaethol ar:
    - Arferion sy’n ystyriol o drawma.
    - Integreiddio eiriolaeth.
    - Cyfrifoldebau a ffiniau Swyddogion Adolygu Annibynnol.
- Sicrhau adnoddau a hyfforddiant i Swyddogion Adolygu Annibynnol a staff.
- Ymwreiddio mecanweithiau llais y plentyn (eiriolaeth, cyswllt cyn cyfarfodydd, dewisiadau o ran cyfranogi).
- Alinio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHU) a chynnwys dangosyddion iechyd a llesiant.

### 2.8 Adran 4: cwestiynau ychwanegol

**Cwestiwn 8:** Ydych chi’n cytuno â’r ychwanegiadau a’r diwygiadau arfaethedig i’r adrannau hyn o’r cod? Os nad ydych, a allech chi esbonio pa welliannau eraill sydd eu hangen.

**Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad**

Roedd lefel uchel o ymgysylltu â’r cwestiwn hwn, a defnyddiodd llawer o’r ymatebwyr y cyfle hwn i godi materion ychwanegol. Cafwyd neges gref ynghylch yr heriau ynghylch gwneud sylwadau heb weld y cod ymarfer drafft llawn a byddai’r rheiny a ymatebodd yn falch o’r cyfle i wneud sylwadau ar y drafft llawn cyn iddo gael ei gyhoeddi.

<u>Thema/Themâu allweddol</u>

Roedd y themâu a gynhwyswyd yn yr ymatebion yn rhychwantu addysg, eiriolaeth, cwmpas rhianta corfforaethol, iechyd, ac eglurder wrth weithredu.

<u>Sylwadau</u>

- Roedd pryderon ynghylch y baich gweithredu posibl a phwysleisiwyd bod angen adnoddau ac eglurder.
- Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus ynghylch tryloywder ac roeddent am weld y newidiadau arfaethedig.
- Roedd sylwadau a oedd yn cefnogi safonau cenedlaethol a defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol i sicrhau cysondeb.
- Pwyslais cryf ar gryfhau gwasanaethau eiriolaeth.
- Pryder ynghylch y diffiniad cul o rianta corfforaethol yn y cod.

. <u>Argymhellion</u>

- Cryfhau’r canllawiau ar wahardd o’r ysgol a monitro lleoliadau ysgol annibynnol.

- Gwneud darparu eiriolaeth yn orfodol mewn lleoliadau preswyl; ymwreiddio dull optio allan.
- Cynnwys egwyddorion y siarter yn y cod; ac ymestyn y dyletswyddau i fyrddau iechyd.
- Cyhoeddi'r cod drafft llawn yn gynnar; darparu map trywydd ar gyfer diwygiadau ac adolygiadau'r cod.
- Cyflwyno archwiliadau iechyd gorfodol cyn ac ar ôl lleoliad; alinio monitro â mentrau digidol y GIG/setiau data iechyd cenedlaethol.
- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol ar gyfer tryloywder a meincnodi a chyhoeddi data perfformiad awdurdodau lleol. (Gallai'r rhain gynnwys presenoldeb ar baneli, cyflawni ymrwymiadau, cyfranogiad gan bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a chanlyniadau ym maes iechyd, addysg a llesiant).
- Archwilio statws unigolion â phrofiad o fod mewn gofal o ran nodweddion gwarchodedig.
- Galwadau i gyfranogiad plant fod yn brif nod ac am gyswllt cyn cyfarfodydd gan Swyddogion Adolygu Annibynnol i feithrin ymddiriedaeth.
- Angen cadarnhau cyfrifoldebau rhieni corfforaethol gyda phartneriaid sy'n llofnodi'r siarter rhianta corfforaethol gan gynhyrchu data am y cyfleoedd y maent yn eu cynnig i blant sy'n derbyn gofal a'r rheiny sy'n gadael gofal.
- Osgoi dyblygu a chanlyniadau anfwriadol.
- Lleihau peryglon symud lleoliadau yn aml a lleoliadau y tu allan i'r ardal.
- Angen trin eiddo mewn modd parchus (dim bagiau bin).

### 2.9 Canlyniadau anfwriadol

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n meddwl y bydd unrhyw un o'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol? Os ydych, esboniwch.

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad:** Nid yw'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn rhagweld canlyniadau anfwriadol.

Thema/Themâu allweddol

Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at beryglon sy'n gysylltiedig ag adnoddau, eglurder ynghylch rolau, terminoleg, ac atebolrwydd.

Sylwadau

- Bydd mwy o gyfranogiad gan blant ac eiriolaeth yn gofyn mwy o amser staff, hyfforddiant, a chyllid.
- Heb adnoddau ychwanegol, mae perygl y bydd newidiadau yn symbolaidd neu'n anghyson.
- Gall gwasanaethau iechyd wynebu mwy o alw a fydd yn golygu buddsoddiad a chynllunio'r gweithlu.
- Pryderon y gallai cyfrifoldebau rhianta corfforaethol barhau i gael eu hystyried yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaethau Plant yn hytrach na chyfrifoldeb i'r awdurdod lleol cyfan ac yn gyfrifoldeb amlasiantaethol.

- Galwadau am fframweithiau a chanllawiau clir i ddiffinio cyfrifoldebau ac osgoi dyblygu strwythurau llywodraethu.
- Gallai disgwyliadau uwch o ran cyfranogi ac adrodd roi pwysau ychwanegol ar dimau sydd eisoes o dan bwysau.
- Perygl y bydd dulliau ticio blwch yn cael eu defnyddio os na fydd digon o adnoddau ar gyfer cyfranogiad.
- Angen sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau eiriolaeth ac eglurder ynghylch sut y bydd llais y plentyn yn cael ei ymwreiddio.
- Pryder y gallai adnoddau ar-lein gymryd lle cynghorwyr personol yn hytrach nag ychwanegu atynt.
- Pwysleisio'r perygl y gellid mabwysiadu diffiniad cul o rianta corfforaethol sy'n anghyson â gwaith blaenorol Llywodraeth Cymru.
- Gallai cyflwyno termau newydd fel "rhianta cymunedol" ddrysu rhanddeiliaid a phobl ifanc a gallai wanhau cyfrifoldebau statudol os na chânt eu hesbonio'n glir.

<u>Argymhellion</u>

- Darparu canllawiau cenedlaethol clir ynghylch:
    - Rolau a chyfrifoldebau o ran rhianta corfforaethol a chymunedol.
    - Y disgwyliadau o ran gweithredu a'r gofynion o ran adnoddau.
- Sicrhau cyllid ychwanegol a hyfforddiant i gefnogi cyfranogiad, eiriolaeth, ac arferion sy'n ystyriol o drawma.
- Cyfathrebu'n glir ynghylch terminoleg i osgoi dryswch a gwanhau dyletswyddau statudol.
- Cynllunio ar gyfer mwy o alw am wasanaethau, yn enwedig ym meysydd iechyd ac eiriolaeth.
- Ymwreiddio mecanweithiau atebolrwydd ac osgoi dulliau symbolaidd.
- Cyhoeddi asesiadau o effaith a sicrhau eu bod yn cael eu llunio ar y cyd â phobl ifanc.
- Galw am:
    - Ymrwymiad trawsbleidiol ar ôl etholiadau 2026.
    - Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Plant.
- Creu'r drafft llawn ar y cyd â rhanddeiliaid a phobl ifanc.

### 2.10 Effaith ar grwpiau o bobl

**Cwestiwn 10:** Beth yw eich barn ar effaith debygol y newidiadau arfaethedig i god ymarfer rhan 6 (rhianta corfforaethol) ar grwpiau o bobl, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi?

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

Roedd yr ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol yn bennaf. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ac mae nifer o ymatebion yn nodi nad ydynt yn disgwyl unrhyw effeithiau negyddol.

Mae rhai ymatebion yn pwysleisio bod buddion, fodd bynnag, yn dibynnu ar weithredu cadarn, arweiniad clir, ac atebolrwydd.

<u>Thema/Themâu allweddol</u>

Roedd y themâu yn cynnwys cydnabod profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig, llais y plentyn, cynhwysiant a chydraddoldeb, heriau o ran gweithredu, a chroestoriadedd.

<u>Sylwadau</u>

- Pwyslais cryf ar wella cyfranogiad a sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed, yn enwedig y rheiny ag anghenion cyfathrebu.
- Disgwylir effaith gadarnhaol i blant ag anableddau, hunaniaethau LHDTC+, a chefndiroedd ethnig lleiafrifol.
- Ymhlith yr heriau o ran gweithredu a'r risgiau y mae diffyg ymgysylltu â phartneriaid, baich gweinyddol, a chyllid annigonol.
- Tynnwyd sylw at fater croestoriadedd mewn perthynas â rhai grwpiau, e.e. plant sy'n ceisio lloches, menywod ifanc beichiog â phrofiad o fod mewn gofal sydd ag anfanteision cyfansawdd.
- Potensial i leihau anghydraddoldebau ar draws meysydd addysg, iechyd a thai.

<u>Argymhellion</u>

- Mae'r ymatebwyr yn cefnogi trin profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig ffurfiol.
- Galwadau am gyfathrebu hygyrch, gwasanaethau sy'n ddiwylliannol gymwys, a mynediad cyfartal at ddulliau cyfranogi.
- Hyfforddiant, monitro, a fframweithiau clir ar gyfer paneli rhianta corfforaethol.
- Dylai fod arweiniad clir a dylid cynnwys sefydliadau'r trydydd sector.
- Roedd awgrymiadau ynghylch goruchwyliaeth gryfach, cynnwys partneriaid y trydydd sector, asesiadau cadarn o'r effaith ar gydraddoldeb/hawliau plant a monitro canlyniadau.

**2.11 Effeithiau ar y Gymraeg**

**Cwestiwn 11:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau arfaethedig i god ymarfer rhan 6 (rhianta corfforaethol) yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn

llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu mai ychydig iawn o effaith ar y Gymraeg, neu effaith gadarnhaol y bydd y newidiadau arfaethedig yn eu cael. Mae nifer o ymatebion yn nodi nad oes goblygiadau andwyol ac mae llawer yn ystyried hyn yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.

Thema/Themâu allweddol

Y themâu allweddol a ddeilliodd o'r ymatebion oedd ymrwymiad i ddwyieithrwydd, cynnig gweithredol a mynediad cyfartal, amlygu rhai heriau ymarferol, nodwyd cyfleoedd i gael effaith gadarnhaol ac roedd rhai ymatebion yn pwysleisio bod angen alinio â'r fframwaith deddfwriaethol a'r cyfeiriad polisi ehangach.

Sylwadau

- Mae'r ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd y cynnig gweithredol a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Heriau o ran recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg a chysondeb mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer ADY.
- Mae'r ymatebion hefyd yn amlygu cysondeb â deddfwriaeth a pholisïau perthnasol, a chyfeirir at Safonau'r Gymraeg, Erthygl 30 CCUHP, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Argymhellion

- Sicrhau darpariaeth ddwyieithog ar gyfer yr holl ddogfennau, cyfarfodydd, a fforymau ymgysylltu.
- Cryfhau canllawiau i gynnwys ystyriaethau o ran y Gymraeg yn bendant.
- Monitro effaith ar ddysgwyr y Gymraeg, yn enwedig y rheiny ag ADY.
- Buddsoddi yn natblygiad y gweithlu i fynd i'r afael â phrinder staff sy'n siarad Cymraeg.
- Cyhoeddi fersiynau hygyrch o ganllawiau i blant a phobl ifanc yn y ddwy iaith.
- Mewn perthynas â chyfleoedd am effaith gadarnhaol sy'n deillio o'r cynigion, mae'r awgrymiadau yn cynnwys:
    - Cofnodi dewis iaith mewn Cynlluniau Addysg Personol.
    - Cyhoeddi fersiynau o ganllawiau sy'n addas i blant yn y Gymraeg.
    - Monitro darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant â phrofiad o fod mewn gofal.

## 2.12 Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg

- **Llais y Plentyn**: Cefnogaeth gref i gryfhau cyfranogiad, ond pryderon am symbolaeth a'r angen am ganllawiau ymarferol.
- **Term Rhianta Cymunedol**: Barn gymysg—mae rhai yn ei ystyried yn gynhwysol, ac mae eraill yn ofni y bydd yn creu dryswch neu'n gwanhau dyletswyddau statudol.
- **Paneli Rhianta Corfforaethol**: Cefnogaeth eang, ond galwadau am hyblygrwydd ac eglurder ynghylch aelodaeth, atebolrwydd, a chylchoedd adborth.
- **Gwybodaeth i'r rhai sy'n gadael gofal**: Mae'r rhan fwyaf yn ffafrio **dull hybrid** (platfformau cenedlaethol a lleol), gyda phwyslais ar hygyrchedd ac adnoddau dwyieithog.
- **Mesur Cynnydd**: Consensws ar gyfuno **data meintiol** (dangosyddion perfformiad allweddol, sefydlogrwydd lleoliadau, canlyniadau addysg) ag **adborth ansoddol** (arolygon, profiad bywyd).
- **Cydraddoldeb a'r Gymraeg**: Disgwylir effaith gadarnhaol yn gyffredinol, ond mae angen adnoddau dwyieithog a rhoi sylw i ddarpariaeth ADY/cyfrwng Cymraeg.
- **Canlyniadau Anfwriadol**: Ymhlith y risgiau a nodwyd y mae pwysau o ran adnoddau, dryswch ynghylch rolau, a disgwyliadau afrealistig heb gyllid.

Negeseuon Allweddol

- **Cefnogaeth Eang** i gryfhau llais y plentyn a phaneli rhianta corfforaethol.
- **Dadl ynghylch Terminoleg**: "Rhianta Cymunedol" yn cael ei ystyried yn gynhwysol gan rai, ac yn ddryslyd gan eraill.
- **Platfformau Gwybodaeth**: Ffefrir dull hybrid (cenedlaethol a lleol) er mwyn sicrhau cysondeb a pherthnasedd.
- **Mesur**: Angen cyfuniad o ddangosyddion perfformiad allweddol meintiol ac adborth ansoddol.
- **Risgiau**: Straen o ran adnoddau, atebolrwydd aneglur, a symbolaeth bosibl os na chaiff y newidiadau eu gweithredu'n dda.
- **Pryder**: anodd ymateb yn llawn heb weld y newidiadau yn y drafft llawn o'r cod ymarfer.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd yr ymateb cyffredinol i'r cynigion yn gadarnhaol ac yn croesawu'r newidiadau ond nododd nifer o ymatebion na allent ymateb yn llawn gan nad oedd y cynigion wedi'u gosod yn y cod ymarfer llawn. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ail ymgynghoriad ar y cod ymarfer drafft llawn. Bydd hyn yn galluogi'r rheiny a ymatebodd i weld y cyd-destun a'r geiriad llawn yn y cod.

Mae'r adborth o'r ymgynghoriad cyntaf ar y newidiadau arfaethedig wedi'i ystyried yn y newidiadau a wnaed i'r cod ymarfer drafft a fydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ychwanegu adran ar rianta corfforaethol i bennod gyntaf y cod ymarfer fel y caiff ei gyflwyno fel cyfrifoldeb trosfwaol sy’n ymwneud â’r cod llawn ac nad ystyrir ei fod ar wahân;
- cynnwys argymhelliad bod Paneli/Byrddau Rhianta Corfforaethol yn cael eu sefydlu mewn awdurdodau lleol;
- gofyniad i sicrhau bod gan blant sy’n derbyn gofal fynediad ar-lein at wybodaeth am eu hawliau ar lefel genedlaethol a lleol;
- sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei integreiddio drwy ofal a chymorth;
- sicrhau bod llais y plentyn a’r person ifanc yn rhan annatod o Strategaethau Rhianta Corfforaethol, Byrddau/Paneli;
- diweddaru’r adrannau ar symud lleoliadau a chynlluniau addysg personol, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad.

Yn ogystal, bydd adborth ac argymhellion yn cael eu dilyn ar wahân i’r cod ymarfer, oherwydd byddant yn ymwneud yn ehangach ag asiantaethau eraill nad oes ganddynt ddyletswyddau statudol fel rhieni corfforaethol ond sy’n cynnig cymorth eang i blant sy’n derbyn gofal a’r rheiny sy’n gadael gofal.  Byddwn yn parhau i weithio gyda phob sector o dan y siarter rhianta corfforaethol i wneud y cynnydd hwn, yn enwedig ynghylch awgrymiadau i fforymau rannu arfer da a chefnogi sefydliadau sy’n llofnodi’r siarter i ddatblygu a gweithredu eu haddunedau.